| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mawrth 29ain 2023 |
| **TEITL** | Cynllun Gweithredu Adfer Natur |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **AWDUR** | Arweinydd Uned Bioamrywiaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Roedd 2019 yn drobwynt o ran cydnabod yr argyfwng natur a chynyddu camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth. Fe gyhoeddwyd argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru, gyda Chyngor Gwynedd ei hun yn dilyn ym mis Mawrth 2019. Mewn ymateb, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Genedlaethol a rhan 1, "Ein strategaeth ar gyfer Natur", yn nodi'r ymrwymiad i wrthdroi'r golled mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a'r amcanion ar gyfer gweithredu (Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020 i 2021 (llyw.cymru);). Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datgan argyfwng natur ym mis Mehefin 2021.

1.2 Yn dilyn ymlaen o hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol, Parc Cenedlaethol ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ledled Cymru i gynhyrchu Cynllun Gweithredu eu hunain, yn manylu ar sut y dylai pob ardal fynd i'r afael ac adfer natur.

## 2.0 CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR GWYNEDD A LLŶN

2.1 Mae Gwynedd a Llŷn wedi penderfynu cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar y cyd, a fydd nid yn unig yn anelu at fynd i'r afael â'r amcanion cenedlaethol, ond hefyd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r pryderon amgylcheddol yn nes at adref. Er enghraifft, pan ofynnwyd i gymunedau Llŷn beth sy'n dda am eu hardal yn ystod ymgynghoriadau diweddar ar gyfer prosiect Ardal Ni, "Amgylchedd ac agosatrwydd yn atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad" sgoriodd uchaf. Rydym am sicrhau bod gennym gynllun yn ei le sy'n sicrhau bod ein cymunedau a thrigolion lleol ar draws Gwynedd a Llŷn yn gallu parhau i fwynhau ac elwa o'n byd natur ein hunain.

2.2 Mae'r Cynllun Gweithredu ei hun yn ddogfen bolisi yr ydym yn ei chynhyrchu a fydd yn cynorthwyo adferiad natur sir Gwynedd ac Ardal o Harddwch Llŷn. Mae'r ddogfen wedi'i hanelu at amrywiaeth eang o randdeiliaid, partneriaid, grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb mewn adferiad byd natur neu sy'n allweddol iddo.

2.3 Byddwn yn cynnal ymgynghoriadau ar gyfer grwpiau amrywiol gan ddechrau yn fuan. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn yn cael eu defnyddio i arwain a sbarduno gweithred tuag at adferiad natur yng Ngwynedd a Llŷn, felly byddem yn eich annog i gymryd rhan lle y gallwch.

2.4 Am ragor o wybodaeth am y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol, ewch i wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru drwy glicio ar y ddolen ganlynol: Wales Biodiversity Partnership - Nature Recovery Action Plan (biodiversitywales.org.uk)

**3.0 ARGYMHELLIAD**

3.1 Derbyn yr wybodaeth.